Y CRIW
Mentrus

Cynradd Uwch

Gweithgaredd 8:
Sut allwn ni hysbysebu?

Amcan Dysgu

- Annog disgyblion i feddwl yn greadigol.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Datrys problemau
- Arloesedd
- Meddwl dargyfeiriol – cynhyrchu syniadau

Gweithgareddau dysgu

Rhowch funud i'r disgyblion gofio unrhyw hysbysebion y maent wedi eu gweld:

- Beth oedd yn eu gwneud yn gofiadwy?
- Beth oedd yr hysbyseb diwethaf a welsoch oedd yn achosi i chi fod eisiau prynu'r cynnyrch?

Mae'r disgyblion yn casglu gwahanol fathau o hysbysebion o gylchgronau a phapurau newydd.

Gofynnwch y cwestiwn *"Beth yw'r gwahanol fathau/arddulliau?"*

Mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn didoli'r hysbysebion yn gategorïau e.e. addysgiadol, mynnu sylw, doniol. Gofynnwch i'r disgyblion drafod *"Pa rai yw'r hysbysebion mwyaf effeithiol a pham?"*

Mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh neu/a deunyddiau celf i greu mathau gwahanol o hysbysebion mewn perthynas â'u menter e.e

- poster ar gyfer hysbysfyrddau
- hysbyseb yng nghylchlythyr yr ysgol
- taflen i'w roi i rieni
- hysbyseb papur newydd
- label ar gyfer eu cynnyrch.

Gweithgaredd 8:
Sut allwn ni hysbysebu?

Cynradd Uwch

Gan ddefnyddio **Adnodd 8 Rhestr wirio 'Creu Hysbyseb'** gofynnwch i'r disgyblion werthuso eu hysbysebion a thrafod ffyrdd o'u gwella. Maen nhw'n penderfynu pa ddyluniadau a fformatau byddan nhw'n eu defnyddio i hyrwyddo eu prosiect menter.

Mae'r disgyblion yn gweithio mewn grwpiau i baratoi taflenni a / neu bosteri i hyrwyddo eu prosiect menter.

Mae'r disgyblion yn paratoi ar gyfer lansio a marchnata eu cynnyrch neu wasanaeth.

Canlyniad dysgu

Mae'r disgyblion yn meddwl yn greadigol ac yn gwerthuso effeithiolrwydd eu gwaith.

Adnoddau sydd eu hangen

- Cylchgronau, posteri, papurau newydd sy'n dangos mathau gwahanol o hysbyseb
- Adnodd 8 rhestr wirio 'Creu Hysbyseb'
- TGCh
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Gweithgaredd 8:
Sut allwn ni hysbysebu?

Cynradd Uwch

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Meysydd Dysgu a Phrofiad

Celfyddydau Mynegiannol

- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth ac yn defnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Gwyddoniaeth a thechnoleg

- Mae syniadau dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ateb anghenion a gofynion cymdeithas.

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrando

- Gwrando ar gyfer ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando ar gyfer ymddiddan cydweithredol

Ysgrifennu

- Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destun.

2. Cymhwysedd Digidol

- Darganfod, chwilio a chynllunio cynnwys digidol
- Creu cynnwys digidol
- Gwerthuso a gwella cynnwys digidol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government